

# Adolygiad o Niwtraliaeth y Rhynggrwyd

---

**Datganiad**

Cyhoeddwyd 26 Hydref 2023

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg .....	3
-------------------	---

# 1. Trosolwg

- 1.1 Mae niwtraliaeth y rhyngwrwyd yn cefnogi'r 'rhyngwrwyd agored', gan sicrhau bod defnyddwyr y rhyngwrwyd (defnyddwyr a'r rhai sy'n creu ac yn dosbarthu cynnwys) yn cadw rheolaeth dros yr hyn maen nhw'n ei weld ac yn ei wneud ar-lein – ac nid y darparwyr band eang na'r darparwr symudol (sy'n cael eu hadnabod fel darparwyr gwasanaethau rhyngwrwyd fel arall). Mae'r rheolau ynghylch niwtraliaeth y rhyngwrwyd yn sicrhau bod y traffig sy'n cael ei gludo ar draws rhwydweithiau band eang a symudol yn cael ei drin yn gyfartal ac nad yw cynnwys neu wasanaethau penodol yn cael eu blaenoriaethu na'u harafu mewn ffordd sy'n ffafrio rhai dros eraill.
- 1.2 Mae'r rhyngwrwyd yn rhan hanfodol o'n bywydau bob dydd, ac mae niwtraliaeth y rhyngwrwyd wedi chwarae rhan hollbwysig o ran galluogi pobl i gael gafael ar y cynnwys a'r gwasanaethau maen nhw am eu cael, gan gynnwys pori'r we, gwyllo fideos ffrydio, neu uwchlwytho cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol. Mae hefyd wedi galluogi darparwyr cynnwys newydd i gyrraedd miliynau o gwsmeriaid newydd a thyfu'n gyflym – er enghraifft, cafodd Disney+ ei lansio yn y DU ym mis Mawrth 2020 ac roedd wedi cael 7.1m o danysgrifwyr erbyn dechrau 2023.<sup>1</sup>
- 1.3 Fodd bynnag, gan fod rheolau niwtraliaeth y rhyngwrwyd yn cyfyngu ar weithgareddau'r darparwyr gwasanaethau rhyngwrwyd, mae'n bosibl eu bod hefyd yn cyfyngu ar eu gallu i arloesi, datblygu gwasanaethau newydd a rheoli eu rhwydweithiau. Gallai hyn arwain at ganlyniadau gwael i ddefnyddwyr, gan gynnwys costau uwch, neu ddefnyddwyr yn methu ag elwa o wasanaethau newydd mor gyflym ag y dylent, neu ddim o gwbl. Gallai'r anfanteision posibl hyn ddod yn fwy amlwg yn y dyfodol, wrth i bobl wneud mwy o ddefnydd o wasanaethau ar-lein, wrth i draffig gynyddu, ac wrth i fwy o ofynion gael eu rhoi ar rwydweithiau.
- 1.4 Rydyn ni am sicrhau, wrth i dechnoleg esblygu, ac wrth i fwy a mwy o'n bywydau symud ar-lein, bod niwtraliaeth y rhyngwrwyd yn parhau i gefnogi arloesedd, buddsoddiad a thwf, a hynny ar gyfer darparwyr cynnwys a darparwyr gwasanaethau rhyngwrwyd fel ei gilydd. Byddai taro'r cydbwysedd cywir yn gwella profiadau defnyddwyr ar-lein, gan gynnwys drwy wasanaethau newydd ac arloesol, a mwy o ddewis.
- 1.5 Mae'r rheolau presennol am niwtraliaeth y rhyngwrwyd wedi'u nodi mewn deddfwriaeth. Byddai unrhyw newidiadau i'r rheolau yn y dyfodol yn fater i Lywodraeth a Senedd y DU. Ofcom sy'n gyfrifol am fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau, yn ogystal â darparu canllawiau ar sut y dylai darparwyr gwasanaethau ddilyn y rheolau hyn. Yn 2021, fe wnaethom ddechrau cynnal adolygiad o'r fframwaith niwtraliaeth y rhyngwrwyd yn y DU, cyn mynd ati i gyhoeddi ymgynghoriad y llynedd. Mae'r datganiad hwn yn nodi casgliadau ein hasesiad o fframwaith niwtraliaeth y rhyngwrwyd, ynghyd â'n canllawiau diweddaraf ar sut y dylai'r rheolau fod yn berthnasol.

## Ein penderfyniadau – yn gryno

At ei gilydd, mae niwtraliaeth y rhyngwrwyd wedi gweithio'n dda ac wedi cefnogi'r dewis sydd ar gael i ddefnyddwyr. Mae hefyd wedi galluogi darparwyr cynnwys i gyflwyno eu cynnwys

<sup>1</sup> [C1 2023 Data Arolwg Eiddo – Barb.](#)

a'u gwasanaethau i ddefnyddwyr. Fodd bynnag, mae meysydd penodol lle rydym yn darparu rhagor o eglurder yn ein canllawiau i alluogi darparwyr gwasanaethau rhyngwryd i arloesi a rheoli eu rhwydweithiau'n fwy effeithlon, er mwyn gwella canlyniadau i ddefnyddwyr:

- **Gall darparwyr gwasanaethau rhyngwryd gynnig cynigion manwerthu o ansawdd premiwm:** Mae caniatáu i ddarparwyr gwasanaethau rhyngwryd ddarparu pecynnu manwerthu o ansawdd premiwm yn golygu y gallant ddiwallu anghenion rhai defnyddwyr yn well. Er enghraifft, efallai y bydd pobl sy'n defnyddio cymwysiadau realiti rhithwir o ansawdd uchel am brynu gwasanaeth o ansawdd premiwm, tra gall defnyddwyr sy'n ffrydio ac yn pori'r rhyngwryd yn bennaf brynu pecyn rhatach. Mae ein canllawiau diweddaraf yn egluro y gall darparwyr gwasanaethau rhyngwryd gynnig pecynnau premiwm, sy'n cynnig lefel oedi isel er enghraifft, cyn belled â'u bod ddigon clir i gwsmeriaid ynghylch yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaethau y maent yn eu prynu.<sup>2</sup>
- **Gall darparwyr gwasanaethau rhyngwryd ddatblygu 'gwasanaethau arbenigol' newydd:** Mae rhwydweithiau 5G a ffeibr llawn newydd yn cynnig cyfle i ddarparwyr gwasanaethau rhyngwryd arloesi a datblygu eu gwasanaethau. Mae ein canllawiau diweddaraf yn egluro pryd y gallant ddarparu 'gwasanaethau arbenigol' i ddarparu cynnwys a chymwysiadau penodol y mae angen eu hoptimeiddio, a allai gynnwys cyfathrebiadau amser real, realiti rhithwir a cherbydau di-yrwr.
- **Gall darparwyr gwasanaethau rhyngwryd ddefnyddio mesurau rheoli traffig i reoli eu rhwydweithiau:** Gall darparwyr gwasanaethau rhyngwryd ddefnyddio mesurau rheoli traffig ar eu rhwydweithiau, fel bod gwasanaeth o ansawdd da yn cael ei gynnal i ddefnyddwyr. Mae ein canllawiau diweddaraf yn egluro pryd a sut y gall darparwyr gwasanaethau rhyngwryd ddefnyddio mesurau rheoli traffig, gan gynnwys y gwahanol ddulliau y gallant eu mabwysiadu a sut y gallant wahaniaethu rhwng gwahanol gategoriâu o draffig ar sail eu gofynion technegol.
- **Bydd y rhan fwyaf o gynigion ar gyfradd sero yn cael eu caniatáu:** Cyfradd sero yw lle nad yw'r data a ddefnyddir gan wefannau neu apiau penodol yn cael ei gyfrif tuag at lwfans data cyffredinol y cwsmer. Mae ein canllawiau diweddaraf yn egluro y byddwn fel arfer yn derbyn y cynigion hyn, gan nodi'r amgylchiadau cyfyngedig lle gallai fod gennym bryderon.

Rydym hefyd yn egluro ei bod yn annhebygol y bydd gennym bryderon pan fydd darparwyr gwasanaethau rhyngwryd yn cymryd camau rhesymol i ddarparu gwasanaethau sydd o fudd amlwg i'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys galluogi darparwyr gwasanaethau rhyngwryd i flaenoriaethu a darparu mynediad cyfradd sero i wasanaethau brys, cynnig camau rheoli i rieni, rheoli traffig rhyngwryd ar drafnidiaeth ac mewn mannau cyhoeddus lle nad oes llawer o gapasiti ar gael, ac atal mynediad i wefannau sgam a chynnwys niweidiol arall.

Yn olaf, rydym yn nodi ein safbwyntiau ar y posibilrwydd o ganiatáu i ddarparwyr gwasanaethau rhyngwryd godi tâl ar ddarparwyr cynnwys am gludo'u traffig, a allai arwain at rwydweithiau'n cael eu defnyddio'n fwy effeithlon. Er bod manteision posibl i drefn codi tâl, nid ydym wedi gweld digon o dystiolaeth eto bod angen hyn, ac rydym yn credu bod digon o hyblygrwydd ar gael i ddarparwyr gwasanaethau rhyngwryd yn ein cynigion eraill. Yn y pen

---

<sup>2</sup> Ystyr 'oedi' ydy'r amser a gymerir i wybodaeth deithio ar draws y rhyngwryd.

draw, mater i Llywodraeth a Senedd y DU yw a ddylid cyflwyno trefn codi tâl yn y DU ai peidio.

Ers gadael yr UE, nid ydym wedi gorfod ystyried canllawiau Ewropeaidd, er eu bod wedi parhau i fod yn rhan o'n hagwedd at niwtraliaeth y rhynggrwyd. Rydym wedi penderfynu disodli'r canllawiau hyn yn gyfan gwbl ac rydym bellach wedi cynhyrchu un set gynhwysfawr o ganllawiau.

## Ein hadolygiad

---

- 1.6 Cyflwynwyd rheolau niwtraliaeth y rhynggrwyd i gyfraith yr UE yn 2016. Ar ôl i'r DU adael yr UE (ac ar ddiwedd y cyfnod pontio), daeth y rheolau, gyda mân addasiadau, yn rhan o gyfraith ddomestig y DU.
- 1.7 Ers i'r rheolau gael eu cyflwyno, mae ecosystem y rhynggrwyd wedi esblygu'n sylweddol:
  - Mae maint y traffig wedi cynyddu'n sylweddol, ac mae hyn wedi sbarduno buddsoddiad gan ddarparwyr gwasanaethau rhynggrwyd i barhau i ddarparu'r traffig sy'n cael ei ddefnyddio gan eu cwsmeriaid.
  - Mae cyfran fawr o draffig y rhynggrwyd yn gysylltiedig â nifer o ddarparwyr cynnwys mawr sydd wedi dod i'r amlwg neu wedi tyfu o ran maint, fel Netflix ac Amazon Prime.
  - Mae rhai darparwyr eraill yn y gadwyn gwerth â swyddogaeth 'ceidwad y porth' hefyd, ac maent yn rheoli'r cynnwys mae defnyddwyr yn ei gyrchu, fel Apple a Google drwy'r systemau gweithredu Android ac iOS sydd mewn ffonau clyfar.
  - Mae technoleg yn esblygu fel bod rhwydweithiau sefydlog a 5G yn cynnig y cyfle i ddarparu ystod o wasanaethau newydd ac arloesol, gan gynnwys profiadau realiti estynedig a realiti rhithwir newydd sy'n cynnig ffyrdd gwahanol o ryngweithio ag eraill a'r amgylchedd.
- 1.8 Mae'r datblygiadau hyn wedi arwain at wahaniaethau barn ynghylch effeithiolrwydd y fframwaith presennol ar gyfer niwtraliaeth y rhynggrwyd. Mae darparwyr gwasanaethau rhynggrwyd, gan gynnwys gweithredwyr rhwydweithiau symudol, wedi dadlau bod y rheolau'n golygu nad ydynt yn gallu arloesi ac adennill costau priodol gan y darparwyr cynnwys sy'n gyrru traffig ar eu rhwydweithiau. Ar y llaw arall, mae darparwyr cynnwys wedi dadlau bod y rheolau'n angenrheidiol er mwyn cefnogi gwasanaethau arloesol, a'u bod nhw eu hunain yn buddsoddi'n helaeth yn eu rhwydweithiau eu hunain er mwyn darparu traffig yn fwy effeithlon.
- 1.9 Ein hamcanion ar gyfer yr adolygiad oedd: (1) diogelu mynediad dinasyddion a defnyddwyr i rynggrwyd agored, fel bod defnyddwyr yn gallu cyrchu a defnyddio cynnwys, apiau a gwasanaethau ar-lein o'u dewis, a dosbarthu gwybodaeth gyfreithlon ar-lein; (2) diogelu'r rhynggrwyd agored fel peiriant arloesi, fel bod gan ddarparwyr cynnwys, apiau a gwasanaethau ar-lein gymhellion cryf i arloesi'n barhaus; a (3) diogelu rhwydweithiau effeithlon, cadarn, sy'n cael eu rhedeg yn dda.
- 1.10 Mae'r adolygiad hwn wedi cael ei gynnal ar adeg bwysig yn natblygiad y dulliau rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau ar-lein. Mae'r Bil Diogelwch Ar-lein, sy'n gosod dyletswyddau newydd ar rai gwasanaethau i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed ar-lein, wedi pasio ei ddatl Seneddol olaf yn ddiweddar ac mae disgwyl iddo ddod yn gyfraith yn fuan. Hefyd, mae'r Bil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr, sy'n ceisio sefydlu'r fframwaith

rheoleiddio ar gyfer marchnadoedd digidol, yn mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd.<sup>3</sup> Mae Ofcom wedi nodi ei ddull o ymgysylltu â marchnadoedd digidol yn y sector cyfathrebiadau, ac mae'r adolygiad hwn wedi bod yn rhan allweddol o'r rhaglen waith honno.<sup>4</sup>

---

<sup>3</sup> [Y Bil Diogelwch Ar-lein yn barod i droi'n gyfraith](#) [cyrchwyd 4 Hydref 2023], [Y Bil Marchnadoedd, Cystadleuaeth a Defnyddwyr](#) [cyrchwyd 4 Hydref 2023].

<sup>4</sup> Ofcom, 2022. [Marchnadoedd digidol yn y sector cyfathrebiadau](#)